



Ein cyf/Our ref MA-P-VG-1281-18

Dr Dai Lloyd  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

27 Ebrill 2018

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth ynghylch ymchwiliad undydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Restr Cyflawnwyr Meddygol Cymru Gyfan.

Rwyf wedi nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a bod tri maes penodol wedi cael eu hystyried. Byddaf yn ymdrin â phob un o'r meysydd hyn yn y drefn fel yr ydych wedi eu nodi yn eich llythyr ataf.

### Y Rhestri Cyflawnwyr Meddygol ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr

Fel y nodwch, gwnaed diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 mor ddiweddar â mis Mawrth 2016, er mwyn lleihau baich gweinyddol y broses ymgeisio i fod ar Restr Cyflawnwyr Bwrdd Iechyd Lleol.

Er gwaethaf y diwygiadau hynny a'r ffaith bod y broses ymgeisio wedi ei symleiddio, bu galwadau i gyflwyno newidiadau mwy radical, er enghraifft galwadau i sefydlu Rhestr Cyflawnwyr ar gyfer y DU neu ar gyfer Cymru a Lloegr, neu ar gyfer Cymru, er mwyn lleihau biwrocratiaeth ymhellach. Bu galwadau hefyd i ystyried a fyddai'n bosibl rhoi hawl awtomatig i feddygon sydd ar restr cyflawnwyr yn Lloegr, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon i weithio yng Nghymru.

O ganlyniad, cytunais i gynnal ymgynghoriad anffurfiol dros gyfnod o ddeg wythnos, gan ddechrau ar 28 Tachwedd 2017 a chau ar 7 Chwefror 2018. Cafodd saith opsiwn eu nodi yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys opsiynau a oedd yn ymwneud â'r materion yr ydych wedi eu hamlygu yn eich llythyr, y bu rhanddeiliaid yn ymdrin â nhw yn y sesiynau tystiolaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae asesiad cychwynnol o'r 27 o ymatebion a ddaeth i law wedi dangos bod yna gryn wahaniaeth barn sy'n adlewyrchu'r anawsterau penodol sy'n bodoli mewn rhai rhannau o Gymru.

Bydd fy swyddogion nawr yn dadansoddi'r ymatebion hyn ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fel rhan o'i ymchwiliad. Bydd angen i unrhyw ddull gweithredu a ddefnyddir yn y dyfodol sicrhau bod cydbwysedd ofalus rhwng cael gwared ar rwystrau i feddygon teulu allu gweithio yng Nghymru a materion sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion.

Rwyf hefyd yn nodi bod Partneriaethau Cydwasaethau GIG Cymru wedi awgrymu y gallai gwelliannau TG symleiddio eu prosesau, ac mae hynny'n rhywbeth y bydd fy swyddogion yn ei drafod gyda nhw.

### Pa mor hawdd yw hi i feddygon sy'n dychwelyd i Gymru gofrestru ar y Rhestr Cyflawnwyr Meddygol

Mae'n ofynnol i feddygon sy'n ymgeisio i ymuno â'r Rhestr Cyflawnwyr gyflwyno eu dogfennau ardystio oddi wrth yr awdurdod cymwys; eu dogfennau cofrestru gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol; ac enwau a chyfeiriadau dau ganolwr clinigol. Mae ar gyflogwyr ddyletswydd gofal tuag at y cyhoedd i sicrhau bod meddygon sy'n gweithio yn eu gwasanaeth yn gymwys i wneud hynny, ac mae dyletswydd ar feddygon teulu unigol i sicrhau eu bod yn bodloni'r lefelau priodol o hyfforddiant / ddatblygiad i sicrhau bod eu sgiliau'n gyfredol.

Yn 2015, ystyriodd swyddogion y trefniadau a oedd ar waith i ganfod a oedd cyfleoedd i lacio'r gofynion hynny, gan gynnal y mesurau diogelu cleifion priodol ar yr un pryd. Arweiniodd hyn at nifer o newidiadau i hwyluso'r broses o asesu sgiliau unigolion. Nod y trefniadau hyn oedd ei wneud yn haws i feddygon teulu sydd wedi gweithio o'r blaen yng Nghymru dychwelyd i ymarfer eu proffesiwn ar ôl seibiant gyrfu neu gyfnod o weithio y tu allan i'r DU. Yn ogystal â hynny, roeddent yn cynnig cymorth i feddygon sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU ac sy'n dewis gweithio yng Nghymru. Roedd y pecyn o fesurau yn cynnwys asesiad a oedd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar sgiliau'r unigolyn, er mwyn nodi'r rheini sy'n gallu ymuno â'r gweithlu'n ddiogel heb fawr o gefnogaeth, a'r rheini y mae angen cymorth pellach arnynt.

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried a fyddai'n bosibl ac yn briodol i feddygon teulu sy'n dewis gweithio dramor i barhau ar y Rhestr Cyflawnwyr am hyd at 5 mlynedd, gan barhau'n rhan o'r broses werthuso sydd ar waith yn y DU. Byddai hynny'n golygu y byddai unigolion, sy'n dychwelyd cyn diwedd y 5 mlynedd, eisoes ar y rhestr cyflawnwyr ac felly ni fyddent yn gorfod mynd drwy'r broses ymgeisio arferol. Mae'n bwysig bod agweddau ar ddiogelwch cleifion yn cael eu hystyried mewn perthynas â hyn, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau i fynd rhagddo. Mae fy swyddogion hefyd yn ystyried pa gamau ychwanegol y gellid eu cymryd yn y maes hwn.

### Sut mae proses gofrestru'r Rhestr Cyflawnwyr Meddygol yn asesu cyfwerthedd yr hyfforddiant meddygol a wnaed y tu allan i'r DU.

Mae'r Gyfarwydddeb Cydnabyddiaeth Gilyddol Cymwysterau Proffesiynol (*Mutual Recognition of Professional Qualifications (MRPQ) Directive 2005/36/EC*) yn fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol, yn yr Undeb Ewropeaidd, ac o dan amodau penodol, yng ngwledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ac yn y Swistir. Ei nod yw hyrwyddo cydnabyddiaeth awtomatig o gymwysterau, a symleiddio prosesau gweinyddol.


Yn y DU, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cael eu rheoleiddio'n statudol, gofrestru gyda'r corff rheoleiddio perthnasol, gan ddangos eu bod yn bodloni safonau'r corff hwnnw cyn cael ymarfer eu proffesiwn. Mae'r rheoleiddwyr yn rheoli mynediad i broffesiynau a reoleiddir, teitlau proffesiynol a galwedigaethol, a gweithgareddau proffesiynol lle mae angen cymwysterau penodol, ac sy'n ddarostyngedig i gyfraith genedlaethol. Yn achos meddygon, rôl y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw sicrhau bod unigolion yn meddu ar y cymwysterau priodol ar gyfer cofrestru.

Mae'r mater hwn yn rhan bwysig o'r trafodaethau ehangach sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth y DU fel rhan o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynghylch pa mor werthfawr yw cyfraniad y rheini sy'n dewis dod i Gymru i weithio yn ein systemau iechyd a gofal. Rydym hefyd yn glir y byddai methiant i gytuno ar ddarpariaethau cyfatebol i Gyfarwydddeb MPRQ yn peri niwed sylweddol i'n gallu i recriwtio a chadw staff yn GIG Cymru.

Bydd diddordeb gennyf glywed am ganlyniadau gwaith y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar yr agenda cyfwerthedd rhwng y DU ac Awstralia.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad hwn, a byddaf yn sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i Restri Cyflawnwyr a gynigir yn sgil dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar opsiynau.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC / AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

